## Evans Lowri Haf (CG)

**From:** Humphreys Jason CYNG/COUN
**Sent:** 19 December 2015 12:08
**To:** Williams Heilyn M (Rh-CTGC)
**Cc:** Evans Dewi (Rh-CTGC); Jones Dylan Wynn (Rh-CTGC); Jones Colin (Rh-CTGC); Cynllunio/Planning
**Subject:** Cais Trwydded Porthmadog Filling Station

Annwyl Heilyn

'Rwy'n gwrthwynebu cais am drwydded eiddo, cyfeirnod 098082, gan Motor Fuel Ltd (LL49 9NG) oherwydd pryderon parthed Atal Trosedd ac Anhrefn, Diogelwch y Cyhoedd ac Amddiffyn Plant Rhag Niwed.

Nodwn yn y gyntaf bod y cais yn cynnwys y geiriau "Convenience Store" a "Filling Station" ar fanylion cyfeiriad y safle. Dydw i ddim yn ymwybodol i'r eiddo erioed gael ei gyfeirio fel "Convenience Store" o'r blaen.

O bryd i'w gilydd, mae problemau difrifol yn cael eu hachosi gan foduron yn ciwio am danwydd ar ac o amgylch y safle. Mae hyn yn creu tagfeydd ar y Stryd Fawr ac ar Heol Fadog yn ogystal ag anhrefn a pherygl o ddamweiniau. Mae'n rhesymol iawn i ddyfalu bod ymestyn yr ystod o wasanaethau ar y safle yn cael effaith niweidiol ar y sefyllfa.

Mae'r ymgeiswyr yn gofyn am yr hawl i werthu alcohol rhwng 0600 ac 2300 pob dydd. Ond yr hawl i weithredu rhwng 0800 tan 11:00, ac 0800 tan 1030 ar y Sul sy'n bodoli ar eiddo eraill Stryd Fawr Porthmadog ar hyn o bryd.

Hefyd, mae Cyngor Tref Porthmadog a Grŵp Plismona Eifionydd wedi cefnogi fy ymdrechion i sicrhau amod "labeli poteli" ar drwyddedau eraill yn ddiweddar.

Yr eiddoch yn gywir

Y Cyng. Jason Humphreys